Environment Agency
Pension Fund

Haf 2016

# Eich Pensiwn

Newyddion o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd





# Croeso gan y Cadeirydd

Croeso i argraffiad haf ein cylchlythyr, sy'n rhoi'r diweddaraf i chi ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a materion pensiwn amserol eraill.

Eleni mae'r Gronfa'n brysur yn paratoi ar gyfer ei brisiad tair blynedd. Eleni hefyd byddwn yn parhau ein gwaith ar y cyd gyda nifer o Gronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol yn Ne-orllewin Lloegr ac ymhellach i ffwrdd. Mae hyn mewn ymateb i gyhoeddiad y Llywodraeth yn natganiad cyllideb mis Gorffennaf 2015 ei bod yn bwriadu gweithio gyda Chronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i sicrhau eu bod yn cyfuno buddsoddiadau i ostwng costau'n sylweddol a chadw perfformiad eu buddsoddiadau.

Mae hyn wedi arwain at greu Partneriaeth Pensiwn Brunel, a bydd y grŵp yn parhau â'i waith ôl ei gyflwyniad cychwynnol i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf eleni. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach yn y cylchlythyr hwn.

Mae'r tîm hefyd wedi ei gydnabod am ei waith caled wrth gael ei ystyried yn #1 ym Mynegai Hinsawdd Byd-eang y Byd yr AODP ar gyfer 2016, ac roedd gennym le amlwg fel #6 mewn rhestr o berchnogion asedau, a gyfrannodd at y ddadl ehangach Buddsoddi Cyfrifol yn Gymdeithasol yn fyd-eang, gan IRRI.

Gwnaethom gais am, a derbyn, achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE) yn gynharach eleni, sy'n cydnabod y pwyslais rydym yn ei roi ar ddatblygu sylwadau'r cwsmer, a deall yr hyn rydych chi, ein haelodau, yn dymuno ei gael gennym.

Mae Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn safon gwasanaeth y llywodraeth a ddatblygwyd i sbarduno newid sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o fewn sefydliadau roeddem wedi ymrwymo i ennill yr achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn 2016 a llwyddwyd i gyflawni hyn gyda nifer o achrediadau 'cydymffurfiaeth plws'.

Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth i chi. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth, felly cysylltwch â ni gydag unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen gefn.



**Clive Elphick**

**Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau**

## Cynnwys


**Sut rydym yn buddsoddi** 3

**Y newyddion pensiwn diweddaraf** 4-7

**Arolwg boddhad cwsmer** 8-9

**Aelodau sy'n Bensiynwyr ac aelodau gohiriedig** 10-11

**Rydym eich angen chi - i gymryd rhan** 12

# Sut rydym yn buddsoddi

BRUNEL
Pension Partnership

AAA
AODP GLOBAL CLIMATE INDEX 2016
ASSET OWNERS DISCLOSURE PROJECT

**2016 GLOBAL CLIMATE INDEX**
THIS FUND RANKS AMONG THE TOP 2% OF ASSET OWNERS IN THE WORLD WHEN IT COMES TO MANAGING CLIMATE RISK.

## Cyfuno ein buddsoddiadau pensiwn

Yn 2015 cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn dymuno i'r 89 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyfuno eu buddsoddiadau mewn cronfeydd mwy er mwyn gwneud arbedion mewn costau rheoli buddsoddiadau.

Mewn ymateb sefydlwyd prosiect Partneriaeth Pensiwn Brunel (BPP) i archwilio'r opsiynau ar gyfer cyfuno asedau buddsoddiadau ar draws deg Cronfa. Mae'r Cronfeydd sefydlu yn cynnwys Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, a Chronfeydd Llywodraeth Leol, Avon, Swydd Buckingham, Cernyw, Dyfnaint, Dorset, Swydd Gaerloyw, Swydd Rhydychen, Gwlad yr haf a Wiltshire.

Mae asedion cyfun y gronfa tua £23 biliwn. Bwriad y gronfa yw cyflwyno'r arbedion yn seiliedig ar y pŵer prynu cyfun a fydd gan y fenter ar y cyd a rheoli asedau'r buddsoddiadau'n fwy effeithiol.

Cedwir atebolrwydd lleol gan y bydd pob cronfa unigol yn dal yn gyfrifol am benderfyniadau strategol gan gynnwys dyrannu asedau. Mae ein hagwedd tuag at fuddsoddi cyfrifol wedi ei hintegreiddio'n llawn i mewn i'n strategaeth buddsoddiadau a bydd hyn yn parhau.

Byddwn fel rhan o'r Bartneriaeth Pensiwn Brunel, yn cyflwyno ein cynnig diweddaraf i'r llywodraeth ym mis Gorffennaf a disgwylir y gwneir penderfyniad terfynol yn seiliedig ar achos busnes llawn erbyn mis Rhagfyr 2016.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth a diweddariadau am y prosiect ar wefan Partneriaeth Pensiwn Brunel: **www.brunelpensionpartnership.org** neu drwy ein gwefan ein hun.

## Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei gosod #1 ym Mynegai 500 Hinsawdd Byd-eang 2016

Mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) wedi ennill graddfa AAA yn adroddiad 500 Hinsawdd Byd-eang eleni, a daeth yn #1 ym Mynegai'r Byd.

Rydym wedi cadw ein graddfa A Driphlyg am dair blynedd ar ôl ei gilydd. Mae ein safle eleni'n adeiladu ar ein hanes cryf blaenorol a chydnabyddiaeth fel yr arweinydd blaenaf am reoli risg hinsawdd yn fyd-eang.

Darllenwch yr adroddiad llawn ar ein gwefan neu dewch o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan Prosiect Datgelu Perchnogion Asedau **www.aodproject.net**

## Bod yn fuddsoddwr tymor hir

Environment Agency Pension Fund
10 YEARS
of responsible investment

Fel rhan o'n cyfres 10 pennod ar gyfer 10 mlynedd, mae'r 3edd bennod 'Bod yn fuddsoddwr tymor hir' yn canolbwyntio ar fuddsoddi'n gyfrifol a'r modd y gall materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu effeithio ar yr enillion a geir trwy fuddsoddi. Gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan **www.eapf.org.uk**

Bydd y bennod nesaf, Tystiolaethu Buddsoddi Cyfrifol, i'w chyhoeddi ym mis Mehefin 2016, yn canolbwyntio ar risg carbon a rheoli effaith newid hinsawdd.

# Y newyddion pensiwn diweddaraf

## Cap taliad ymadael

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau cyflwyno 'cap' ar daliadau ymadael a wneir i gyflogeion cyrff y sector cyhoeddus pan fyddant yn gadael cyflogaeth. Bydd y cap hwn yn cynnwys yr holl brif wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, athrawon, gwasanaeth sifil a chyflogeion GIG.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig gosod terfyn o £95,000 ar gyfanswm gwerth pob taliad, gan gynnwys terfynu cyflogaeth yn wirfoddol a gorfodol.

Bydd y cap arfaethedig yn cynnwys:

- Taliadau dileu swydd
- Unrhyw daliadau digolledu neu ddiswyddo arall
- Costau cyfalaf cyflogwr wrth dalu buddion yn gynnar a heb eu gostwng*

*Os byddwch yn gadael oherwydd dileu swydd neu resymau effeithlonrwydd ar ôl 55 oed, mae hawl gennych i dderbyn buddion heb eu gostwng ar unwaith. Mae hyn mewn gwirionedd yn costio i'ch cyflogwr, gan eu bod yn talu am ryddhau eich pensiwn yn gynnar.

Ychwanegir y costau hyn at unrhyw daliad arall (megis dileu swydd) y byddwch yn ei dderbyn ac yna ei fesur yn erbyn y cap taliad ymadael o £95,000.

Ni effeithir buddion sy'n ymwneud ag ymddeol oherwydd afiechyd ac nid yw'r cap taliad ymadael yn effeithio ar gyflogeion SSCL.

Daw y cap i rym o 1 Hydref 2016 a dim ond ar ôl y dyddiad hwnnw y bydd yn effeithio ar daliadau ymadael.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad arall ar gyfyngu taliadau ymadael  ymhellach a daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 3 Mai 2016. Byddwn yn monitro a chyfathrebu'r datblygiadau hyn ar y cyd â'ch cyflogwr.

## Pensiwn newydd y wladwriaeth

Os ydych yn cadw golwg yn rheolaidd ar ein gwefan neu wedi darllen ein dau gylchlythyr blaenorol byddwch yn gweld bod y Llywodraeth wedi cyflwyno Pensiwn y Wladwriaeth newydd, haen sengl, o 6 Ebrill eleni, felly bydd unrhyw un a fydd yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill yn derbyn pensiwn newydd y wladwriaeth.

Mae manylion pellach ar ein gwefan ynghylch sut mae'r uchod yn cymryd lle Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol ac ychwanegol blaenorol.

O 6 Ebrill 2016, ni fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei 'gontractio allan' o'r Pensiwn Gwladwriaeth ychwanegol, ac mae'r ad-daliad ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) roedd aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi eu mwynhau'n flaenorol wedi peidio erbyn hyn. Felly o ganlyniad, bydd aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol  yn talu swm uwch o Yswiriant Gwladol nag o'r blaen.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am sut i gyfrifo eich pensiwn newydd y wladwriaeth yn **www.gov.uk/new-state-pension** neu wrth ddarllen y C ac A pensiwn y wladwriaeth ar ein gwefan.



## Bandiau tâl cyfraniadau

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na fydd bandiau cyfraniad cyflogeion yn newid ar gyfer 2016/17.

Mae hyn yn golygu, bydd y bandiau tâl a ddefnyddiwyd yn yr Adran 50:50 hefyd yn aros ar yr un raddfa.

## Sut mae fy mhensiwn Cynllun Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa (CARE) yn cynyddu?

Newidiodd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o fod yn gynllun cyflog terfynol i gynllun ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa (CARE) ar 1 Ebrill 2014 sy'n effeithio'r modd y cyfrifir eich pensiwn.

Bydd y buddion oedd gennych wedi cronni cyn 1 Ebrill 2014 yn dal i gael eu cyfrifo gan ddefnyddio eich tâl terfynol tan yr adeg pan fyddwch yn ymddeol, felly byddwn yn defnyddio'r dyddiad hwn i gyfrifo eich tâl pensiynadwy yn ystod y 365 diwrnod diwethaf. Yna byddwn yn defnyddio'r swm tâl hwn i gyfrifo'r pensiwn sydd gennych hyd at 1 Ebrill 2014.

Byddwn hefyd yn edrych ar y ddwy flynedd flaenorol os bydd yn rhoi swm tâl uwch i chi ar gyfer y cyfrifiad.

Gall rhai aelodau ddefnyddio swm tâl 'gwarchodedig' sy'n mynd yn ôl ymhellach.

Fodd bynnag, cyfrifir y pensiwn Cynllun Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa fydd gennych ar ôl 1 Ebrill 2014 drwy edrych ar eich tâl bob blwyddyn. Byddwn yn ei rannu gyda 49 ac yn ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn (oni bai eich bod yn Adran 50:50 y Cynllun, pan fyddwn yn rhannu eich tâl gyda 98).

Bob blwyddyn, byddwn yn ystyried gwerth eich pensiwn CARE yn eich cyfrif pensiwn ac yn ei ailbrisio yn unol â Gorchymyn Trysorlys y Llywodraeth. Mae gorchmynion y Trysorlys fel arfer yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) sydd yn ddangosydd y Llywodraeth o chwyddiant prisiau. Os bydd cwymp mewn chwyddiant prisiau, gall Trysorlys EM roi gorchymyn sy'n golygu bod rhaid i ni ddefnyddio ailbrisio negyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

**Ers cyflwyno cynllun CARE:**

| | |
|---|---|
| **Ebrill 2015** | Mynegai Prisiau Defnyddwyr 1.2% |
| **Ebrill 2016** | Mynegai Prisiau Defnyddwyr -0.1% |

Mae hyn yn golygu y bydd y gwerth yn eich cyfrif wedi tyfu +1.2% y llynedd, ond wedi gostwng -0.1% eleni.

Nid yw hyn yn effeithio'r buddion rydych wedi eu hadeiladu cyn 1 Ebrill 2014.

Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am eich pensiwn drwy eich datganiad buddion blynyddol a gyhoeddir yr Hydref hwn.





## Nodyn atgoffa am drethu pensiwn!

Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau treth hyn yn effeithio ar y mwyafrif o'n haelodau, a byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol ag unigolion sy'n debygol o fynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau treth hyn.

Mae terfyn i'r gwerth y gall eich buddion pensiwn gynyddu heb fod rhaid i chi dalu tâl treth. Y lwfans blynyddol am y flwyddyn dreth 2016/17 yw £40,000.

Cyflwynwyd lwfans blynyddol gohiriedig o Ebrill 2016 sy'n cyfyngu ar y gostyngiad yn y dreth i unigolion ag incwm 'wedi ei addasu' uwch na £150,000.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cyfrifo'r twf blynyddol yn eich pensiwn bob blwyddyn dreth yn hytrach na phob blwyddyn gynllun fel o'r blaen. I gael mwy o wybodaeth am lwfans blynyddol gohiriedig, ewch i'n gwefan **www.eapf.org.uk**

Gostyngwyd y lwfans oes ar gyfer 2016/17 o £1.25 miliwn i £1 miliwn. Yn ogystal, o Ebrill 2018, mynegeir y lwfans oes flwyddyn ar flwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

## O Ebrill 2016 byddwch yn gallu gwneud cais am un o ddwy warchodaeth

Mae gwarchodaeth benodedig 2016 (FP2016) ar gael i'r rhai hynny nad oes ganddynt fersiwn flaenorol o warchodaeth ac nad ydynt yn cyfrannu at nac y adeiladu buddion pellach yn y cynllun ar ôl 5 Ebrill 2016. Y lwfans oes ar gyfer yr unigolion hyn fydd £1.25 miliwn neu'r lwfans oes ar adeg ymddeol, pa un bynnag sydd uwch.

Mae gwarchodaeth unigol 2016 (P2016) ar gael i'r rhai hynny sydd â gwerth yn fwy nag £1 miliwn ar 5 Ebrill 2016. Byddwch yn gallu gwneud cais am y gwarchodaethau newydd hyn gan ddefnyddio system hunan wasanaeth ar-lein newydd a fydd ar gael o fis Gorffennaf 2016. Gellir cael gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth hon ar lein yn uniongyrchol drwy CThEM.

Os ydych wedi gwneud cais yn flaenorol am, ac wedi derbyn unrhyw warchodaethau blaenorol, anfonwch gopi at Capita fel y gallwn ddiweddaru eich cofnod.



## Gwahoddiad i ymuno â Phwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio cynrychiolydd aelodau 'sy'n cyfrannu' i ymuno â'n Pwyllgor Pensiynau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo'r Gronfa Bensiwn i ddatblygu ein llywodraethiant ymhellach, gan fodloni gofynion y rheolydd a chefnogi'r Gronfa i sicrhau cydymffurfio â rheoliadau.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio erbyn hyn ond os hoffech gael eich ystyried ar gyfer swyddi yn y dyfodol, gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn **www.eapf.org.uk/trustees/pc-contributing-member-pack**

## Ydych chi'n gyflogai blaenorol Adran yr Amgylchedd neu Arolygiaeth Llygredd Ei Mawrhydi?

Fel cyflogai blaenorol Adran yr Amgylchedd (DoE), Gwasanaeth Sifil, neu Arolygiaeth Llygredd Ei Mawrhydi (HMIP), byddwn yn eich gwahodd i weminar pensiwn ym mis Medi.

Pwrpas y cyflwyniad yw rhoi gwybod i chi am faterion penodol sy'n bwysig i'n haelodau yn Arolygiaeth Llygredd Ei Mawrhydi, megis dyddiad ymddeol arferol gwarchodedig a sut y trafodir buddion yn dilyn diwygio cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

I gadw lle ar y weminar, e-bostiwch **eapfbriefing@capita.co.uk** a byddwn yn anfon mwy o wybodaeth atoch yn nes at y dyddiad. Fel dewis arall, ffoniwch ni ar **0800 121 6593**.

## Gweminarau sydd i ddod

Yn hwyrach eleni byddwn yn eich gwahodd i fynychu nifer o gyflwyniadau pwnc ynghylch eich pensiwn. Edrychwch am ein posteri hyrwyddol ym mis Awst a newyddion mewnol amrywiol.

## Yswiriant bywyd

Ydych chi wedi cwblhau ffurflen mynegi dymuniad, yn enwebu rhywun i dderbyn grant marwolaeth lwmp swm pe byddech yn marw? Ac a ydych wedi diweddaru'r wybodaeth honno os yw eich amgylchiadau wedi newid? Ewch i **www.eapf.org.uk/forms** neu ffoniwch ni i gael ffurflen.

## Cofrestru eich partner sy'n cyd-fyw â chi ar gyfer pensiwn

Gallai eich partner sy'n cyd-fyw â chi fod yn gymwys i dderbyn pensiwn blynyddol 'goroeswyr' os ydych wedi bod yn byw gyda'ch gilydd ac yn rhydd i briodi am fwy na 2 flynedd. Cysylltwch â Capita i gofrestru manylion eich partner.

# Arolwg boddhad cwsmer

Cynhaliwyd arolwg cwsmer ym mis Ionawr gyda'n defnyddwyr Ar-lein Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i'n helpu i ddeall beth yw barn ein haelodau am ein gwasanaeth pensiwn a'n cyfathrebu.

Awgrymodd eich adborth bod angen i ni wneud rhai newidiadau i'n cyfathrebu a sut rydym yn cyfathrebu â chi. Dyma'r hyn a ddywedoch wrthym.

**Beth yw eich barn amdanom ni:**

**4.61**

**Roeddech yn teimlo bod y gwasanaeth a roddwyd gennym yn ardderchog, gan roi sgôr i ni o 4.61 allan o 5**

Roedd peth o ddefnydd pwysicaf y wefan yn cynnwys edrych ar ddatganiadau buddion, tudalennau ymddeol, tablau amcangyfrif ar gyfer rhagolygon ymddeol, diweddariadau diweddar a newyddion pwysig. Roeddech hefyd yn dweud wrthym hefyd nad ydym yn cyfathrebu ddigon a phan wnawn, bod angen i ni sicrhau ei fod yn symlach, yn fwy perthnasol ac yn fwy personol i'ch amgylchiadau.

**Rhagor maes o law. Gan y bydd rhai newidiadau i'n modd o gyfathrebu eleni!**

**Sut rydych yn derbyn gwybodaeth ar hyn o bryd ynghylch eich pensiwn Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd:**

**93%**

**Dywedodd wrthym eu bod yn derbyn eu gwybodaeth o'n cylchlythyron**

### Sut hoffech chi dderbyn eich gwybodaeth:

**38%** — Mae'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth drwy'r **post ac e-bost**

**34%** — Mae'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth drwy **e-bost**

**27%** — Mae'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth drwy **e-bost** a'n **gwefan**

**27%** — Mae'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth drwy'r **post**

**Sut rydych yn derbyn gwybodaeth am eich pensiwn Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd y tu allan i'n cylchlythyr:**

**41%**

**Dywedodd wrthym eu bod yn derbyn eu gwybodaeth o'n gwefan**

**42%**

**Maewedi** defnyddio'r wefan yn y 6 mis diwethaf

**65%**

**Maewedi** defnyddio'r wefan yn y flwyddyn ddiwethaf

**16%**

**Nid ywwedi** defnyddio'r wefan o gwbl yn yflwyddyn ddiwethaf

## Gwrando arnoch

Yn ogystal â derbyn eich adborth drwy ein harolwg, cyhaliwyd dau gr p ffocws yn Reading a Birmingham, ac un astudiaeth ddefnyddioldeb ym Mryste i'n helpu i i ddeall pa mor effeithiol yw ein datganiad buddion blynyddol.

**Dyma'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym**

- Dangoswch i fi faint o bensiwn ac arian parod y byddaf yn eu cael
- Dywedwch wrthyf pryd gallaf ei dderbyn
- Dangoswch i mi effaith y gostyngiadau am gymryd ymddeoliad cynnar
- Dywedwch bopeth wrthyf mewn saesneg clir

**Pan ofynnwyd am ein datganiad presennol, roeddech yn dweud wrthym hefyd:**

- Mae'n edrych yn dda
- Rwy'n teimlo ei fod yn ddeniadol
- Rwy'n hoffi'r ffotograffiaeth ac rwy'n ei gysylltu â Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Hoffem ddiolch i'n holl aelodau a roddodd adborth, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu datganiadau'r dyfodol.

# Aelodau sy'n bensiynwyr ac aelodau gohiriedig



## Ailbrisio eich pensiwn blynyddol

Ni fydd unrhyw newid i daliad eich pensiwn eleni.

Byddwn yn ailbrisio eich pensiwn bob blwyddyn yn unol â'r newid ym Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Roedd Mynegai Prisiau Defnyddwyr eleni yn -0.1%. Ni fyddwn yn defnyddio swm negyddol mewn taliad i bensiynau a dyma pam yr arhosodd eich pensiwn ar ei raddfa bresennol eleni.

## Eich P60 diweddaraf a manylion slip tâl

Anfonwyd eich gwybodaeth P60 ddiweddaraf i'ch cyfeiriad cartref. Ar gefn y ddogfen hon fe welwch hefyd fanylion eich slip tâl. Os nad ydych wedi derbyn eich P60 diweddaraf a manylion eich slip tâl, ffoniwch ni ar **0800 121 6593** neu gallwch e-bostio ar **info@eapf.org.uk**.

| Mis | Dyddiadau tâl | Mis | Dyddiadau tâl |
|---|---|---|---|
| **Ebrill** | Dydd Gwener 29ain | **Hydref** | Dydd Llun 31ain |
| **Mai** | Dydd Mawrth 31ain | **Tachwedd** | Dydd Mercher 30ain |
| **Mehefin** | Dydd Iau 30ain | **Rhagfyr** | Dydd Gwener 23ain |
| **Gorffennaf** | Dydd Gwener 29ain | **Ionawr** | Dydd Mawrth 31ain |
| **Awst** | Dydd Mercher 31ain | **Chwefror** | Dydd Mawrth 28ain |
| **Medi** | Dydd Gwener 30ain | **Mawrth** | Dydd Gwener 31ain |

## Diogelu eich arian

Yn ôl y gyfraith mae gofyn i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i ddiogelu'r arian rydym yn ei weinyddu. O dan y 'Fenter Twyll Genedlaethol' (NFI) efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn rhannu gwybodaeth â chyrff eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cronfeydd cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll.

Mae gofyn i ni gymryd rhan mewn ymarfer paru data electronig, lle byddwn yn cymharu cofnodion cyfrifiadurol â chyrff eraill a all weithiau amlygu anghysonderau. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am fwy o wybodaeth os bydd hyn yn digwydd, ond peidiwch â phoeni, dim ond gofyn am eglurhad fyddwn ni.

Mae gennym bolisi twyll ar gael sy'n esbonio'r sgrinio rydym yn ei wneud, a'r camau rydym yn eu cymryd i wirio marwolaethau na adroddwyd amdanynt, yn ogystal â'n polisi i wirio pensiynau sy'n cael eu talu dramor.

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni

Cofiwch ddweud wrthym os byddwch yn symud cartref, wedi newid eich statws priodasol, am unrhyw newidiad yn achos partner sy'n cyd-fyw, neu os hoffech wneud newidiadau i'ch enwebiadau buddion marwolaeth.

## Briffio aelod sy'n bensiynwr a gweminar

Ym mis Mehefin cynhaliwyd ein briffio blynyddol i bensiynwyr ym Manceinion, gyda gweminar ar gyfer y rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Trafodwyd nifer o bynciau a materion diddorol oedd yn ymwneud â'ch buddion pensiwn.

## Gweminar aelodau gohiriedig

Gall ein haelodau gohiriedig archebu lle ar ein gweminar ddydd Mercher 27 Gorffennaf rhwng 4.30pm a 6pm.

I gadw lle ar y weminar, e-bostiwch **eapfbriefing@capita.co.uk**, a byddwn yn anfon mwy o wybodaeth atoch.

Fel dewis arall, ffoniwch ni ar **0800 121 6593**.

Seminar yw gweminar a gynhelir ar-lein ar gyfrifiadur pen desg neu liniadur. Byddwn yn anfon manylion atoch i chi allu mewngofnodi, ac yna byddwch yn gallu gweld a chlywed y cyflwyniad wrth iddo ddigwydd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i bawb sy'n ymuno drafod a gofyn cwestiynau i'r cyflwynydd (cyflwynwyr).

## Cronfa ddata Yswiriant Gwladol a Dweud Wrthym Unwaith (TUO)

Crëwyd cronfa ddata genedlaethol i alluogi cronfeydd i wirio os oes gan eu haelodau gofnodion pensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn cronfeydd pensiwn eraill. Rhennir rhannau o'r gronfa ddata hon o bryd i'w gilydd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel rhan o'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith (TUO).

Mae Dweud Wrthym Unwaith yn wasanaeth sy'n eich galluogi i hysbysu'r mwyafrif o sefydliadau'r llywodraeth am farwolaeth. Unwaith yn unig y mae'n rhaid i chi hysbysu'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith a bydd yr wybodaeth yn cael ei anfon at bob adran berthnasol y llywodraeth (gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Basbort a'r DVLA). Bydd eich cofrestrydd lleol yn rhoi rhif cyfeirnod unigryw i chi i gael mynediad i'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith.



# Mae eich angen arnom - cymerwch ran

## Mynd yn ddigidol

Yn seiliedig ar eich adborth ac i helpu'r amgylchedd, rydym yn newid y ffordd rydym yn cyfathrebu â chi am eich pensiwn. Rydym yn bwriadu mynd yn ddigidol, ond er mwyn llwyddo rydym angen eich cefnogaeth.

Felly, dosbarthir cyhoeddiad nesaf cylchlythyr y gaeaf drwy e-bost i'r rhai hynny y mae eu manylion gennym a bydd ar gael drwy ein gwefan.

Yn hwyrach eleni byddwn hefyd yn gofyn am wirfoddolwyr i gyrchu datganiad blynyddol digidol am y tro cyntaf. Bydd hyn yn ein helpu i gael syniad a fyddai diddordeb gennych mewn derbyn datganiad digidol yn y dyfodol.

Mae peidio â defnyddio papur yn ffordd wych i aros yn drefnus, drwy dorri ar eich ffeilio a chael yr holl wybodaeth y byddwch ei angen mewn un man canolog yn ogystal â bod yn fwy diogel. Byddwch hefyd yn gallu argraffu copïau o'ch datganiadau pryd bynnag y byddwch eu hangen a byddwn yn eich e-bostio pan fydd eich datganiad yn barod i'w weld ar-lein.

Os hoffech fod yn rhan o'r treial ar-lein cysylltwch â ni ar **eapf@environment-agency.gov.uk**

## Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE)

Gwnaeth Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd gais am, a derbyniodd achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer eleni.

afon gwasanaeth y llywodraeth yw Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer a ddatblygwyd i sbarduno newid sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o fewn sefydliadau. Roeddem ni wedi ymrwymo i ennill achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn 2016 a llwyddwyd i gyflawni hyn gyda nifer o achrediadau 'cydymffurfio plws'.

Rydym wedi dod i ddeall yn well eich profiad o'n gwasanaeth drwy ddefnyddio'r safon hon ar gyfer y gwaith rydym yn ei wneud.

A gobeithio y bydd yn helpu i wella'r ffordd rydym yn gwrando ac yn cyfathrebu â chi.

## Galw am wirfoddolwyr!

Pam na wnewch chi wirfoddoli i gymryd rhan yn ein grwpiau ffocws? Po fwyaf yr aelodau sy'n cymryd rhan, po fwyaf gallwn ddeall eich anghenion yn well a'ch helpu i gael y mwyaf o'r Gronfa.

Os hoffech ymuno ag unrhyw grwpiau ffocws yn y dyfodol yna byddwn yn awyddus iawn i glywed gennych, ffoniwch **0800 121 6593** neu e-bostiwch yn **eapf@environment-agency.gov.uk**

## Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich hawl i bensiwn, gallwch gysylltu â'n gweinyddwr pensiwn, Capita, wrth:

- Ddefnyddio'r botwm '**Cysylltu â Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd**' ar y wefan **www.eapf.org.uk**
- E-bostio **info@eapf.org.uk**
- Ffonio **0800 1216593**
- Anfon eich ymholiad i
  **Capita**
  **Hartshead House**
  **2 Cutlers Gate**
  **Sheffield**
  **DL1 1AX**